

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân

Polisi a Gweithdrefnau Cynllun yn Talu

1.0 Rhagarweiniad

Mae'r 'Cynllun yn Talu' yn fecanwaith sy'n caniatáu i unigolyn ofyn i Reolwr cynllun pensiwn y maent yn aelod ohono dalu unrhyw ffi dreth sy'n ddyledus oherwydd cynilon pensiwn sy'n uwch na therfyn Lwfans Blynyddol safonol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn gyfnewid am hynny, mae gostyngiad yn y buddion pensiwn pan ddaw hi'n amser talu pensiwn yr unigolyn.

Mae dau fath o 'Gynllun yn Talu', sef Gorfodol a Gwirfoddol, ac mae i bob un ei amodau cymhwyso ac amserlenni i'w dilyn.

Rhaid i chi roi gwybod i Gyllid a Thollau EM os ydych chi'n bwriadu defnyddio 'Cynllun yn Talu'. Nodir isod y broses ar gyfer gwneud cais am 'Gynllun yn Talu'.

2.0 Lwfans Blynyddol

2.1 Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn pennu Lwfans Blynyddol i bob Trethdalwr, a gellir dyrannu'r lwfans i'w gyfrif cynilon pensiynau yn ystod 'cyfnod mewnbwn pensiwn' y Cynllun heb olygu atebolrwydd treth.

2.2 Fel arfer, bydd atebolrwydd treth os bydd twf cynilon pensiwn blynyddol yr unigolyn yn uwch na'r Lwfans Blynyddol, sef £40,000 y flwyddyn ar hyn o bryd.

2.3 Fe wnaeth newidiadau i'r Lwfans Blynyddol, o'r enw 'tapro', olygu bod y Lwfans Blynyddol i unigolion sy'n ennill llawer wedi gostwng i £10,000 oddi ar fis Ebrill 2016.

3.0 Cynllun yn Talu - Gorfodol

3.1 Mae unigolyn sy'n mynd yn uwch na'i Lwfans Blynyddol ac sy'n cael ffi dreth yn gallu talu'r dreth o'i arian personol ei hun. Fodd bynnag, mae Deddf Cyllid 2004 yn darparu bod rhaid i gynllun pensiwn ddarparu cyfleuster 'Cynllun yn Talu' pan fydd rhai amodau cymhwyso yn cael eu bodloni. Mae cyfleuster 'Cynllun yn Talu' yn gweithio drwy drefnu bod y gronfa bensiwn yn talu ffi dreth yr aelodau yn y lle cyntaf, a bod hwnnw'n cael ei ad-dalu gan yr aelod drwy ostyngiad yn ei fuddion pensiwn pan ddaw hi'n amser eu talu.

3.2 Dyma'r meini prawf cymhwyso ar gyfer y Cynllun yn Talu - Gorfodol:

- aethpwyd y tu hwnt i derfyn Lwfans Blynyddol Cyllid a Thollau EM (sef £40,000 ar hyn o bryd) yn y cynllun pensiwn y mae dewis y 'Cynllun yn Talu' yn cael ei wneud
- mae'r ffi dreth Lwfans Blynyddol yn uwch na £2000
- mae'r terfynau amser perthnasol ar gyfer gwneud dewis wedi cael eu dilyn

- 3.3 Rhaid i'r Awdurdod Tân gytuno i dalu dewis 'Cynllun yn Talu – Gorfodol' pan mae'r amodau cymhwys yn cael eu bodloni ac mae'r Cynllun yn Talu – Gorfodol wedi cael ei ddefnyddio yng Nghynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân ers 2012.
- 3.4 Oherwydd bod Cyllid a Thollau EM wedi cyflwyno 'tapro' i'r £40,000 o Lwfans Blynnyddol ar gyfer blwyddyn dreth 2016/17, mae amgylchiadau'n bodoli erbyn hyn pryd nad oes gan ddiffoddwr tân hawl i ddewis 'Cynllun yn Talu – Gorfodol' ar gyfer y dreth sy'n ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng y Lwfans Blynnyddol sydd wedi'i 'dapro' (o leiaf £10,000) a'r Lwfans Blynnyddol safonol o £40,000. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai'r atebolrwydd treth gael ei dalu gan drefniant 'Cynllun yn Talu – Gwirfoddol', sef rhywbeth sy'n arfer cyffredin mewn cynlluniau pensiwn eraill.
- 3.5 At hynny, bydd aelodau cynllun sydd wedi cronni cynilon pensiwn mewn mwy nag un cynllun (e.e. aelodau o Gynllun 1992 neu Gynllun 2007 sy'n mynd drosodd i Gynllun 2015), yn cael cynilon yn tyfu yn y ddau gynllun hyd nes byddant yn ymddeol. Drwy gronni twf pensiwn mewn dau gynllun yn hytrach nag un, mae'n fwy tebygol y gallai cyfanswm cynilon pensiwn aelod o'r ddau gynllun fynd yn uwch na £40,000 neu Lwfans Blynnyddol wedi'i 'dapro', ond gallai'r twf mewn unrhyw un o'r cynlluniau fod yn is na therfynau Lwfans Blynnyddol Cyllid a Thollau EM. Felly, ni fydd y 'Cynllun yn Talu – Gorfodol' ar gael i'r unigolyn i dalu'r ffi dreth.

3.6 Dyma'r amserlenni ar gyfer Cynllun yn Talu - Gorfodol:

Cam Gweithredu	Dyddiad Cau¹
Diwedd y Flwyddyn Dreth	5 Ebrill 2018
Y cyflogwr yn darparu gwybodaeth i Weinyddwr y Cynllun	30 Ebrill 2018
Gweinyddwr y Cynllun yn darparu Datganiad Cynilon Pensiwn i'r aelod	6 Hydref 2018
Yr Aelod yn cyflwyno ffurflen Dreth Hunanasesiad yn dweud sut bydd treth Lwfans Blynnyddol yn cael ei thalu i Gyllid a Thollau EM.	31 Ionawr 2019
Y dyddiad cau ar gyfer yr Aelod i ddewis 'Cynllun yn Talu – Gorfodol' (neu ymddeoliad os yw hwnnw'n gynt). Fel arall, bydd treth yn ddyledus i Gyllid a Thollau EM erbyn 31 Ionawr 2018.	31 Gorffennaf 2019
Cynllun yn Talu - Gorfodol – Gweinyddwr y Cynllun yn cyflwyno Adroddiad Digwyddiad i Gyllid a Thollau EM	31 Ionawr 2020
Gweinyddwr y Cynllun yn talu'r dreth i Gyllid a Thollau EM	14 Chwefror 2020

¹ Enghreifftiol

4.0 Cynllun yn Talu - Gwirfoddol

- 4.1 Mae 'Cynllun yn Talu – Gwirfoddol' yn gweithio yn yr un ffordd â'r 'Cynllun yn Talu – Gorfodol' pryd mae'r atebolrwydd treth yn cael ei dalu i ddechrau gan y cynllun pensiwn ac mae'r gost yn cael ei hadfer drwy ostwng pensiwn blynyddol yr unigolyn pan ddaw hi'n amser talu.
- 4.2 Dyma'r meini prawf cymhwyso awtomatig ar gyfer y 'Cynllun yn Talu – Gwirfoddol':
- mae'r aelodau'n agored i Lwfans Blynyddol wedi'i 'dapro' ac nid yw'r ffi dreth yn bodloni'r meini prawf ar gyfer 'Cynllun yn Talu – Gorfodol'. **Ar gyfer yr opsiwn hwn, argymhellir y dylai'r aelod wneud cyfraniad cychwynnol o £2,000 o'i arian ei hun tuag at y ffi dreth Lwfans Blynyddol canlyniadol.**
 - aelodau trosiannol sydd â thwf cynilon pensiwn sy'n uwch na'r Lwfans Blynyddol dros ddau gynllun pensiwn.
- 4.3 Yn ogystal â'r meini prawf cymhwyso awtomatig, mae'n bosibl fod meini prawf cymhwyso eraill ar gyfer 'Cynllun yn Talu – Gwirfoddol' os nad yw unigolyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y 'Cynllun yn Talu – Gorfodol'. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd pob cais yn cael ei ystyried fesul achos o fewn terfyn pŵer cymhwysedd cyffredinol yr Awdurdod Tân.
- 4.4 Dyma'r amserlenni ar gyfer y Cynllun yn Talu - Gwirfoddol:

Cam Gweithredu

Dyddiad Cau²

Y Flwyddyn Dreth yn dod i ben

5 Ebrill 2018

Y Cyflogwr yn darparu gwybodaeth i Weinyddwr y Cynllun

30 Ebrill 2018

Gweinyddwr y Cynllun yn darparu Datganiad Cynilon Pensiwn i'r aelod

6 Hydref 2018

Yr aelod yn gofyn am ddyfynbris Cynllun yn Talu

10 Tachwedd 2018

Gweinyddwr y Cynllun yn rhoi dyfynbris

30 Tachwedd 2018

Yr Aelod yn dychwelyd y ffurflenni yn derbyn y dyfynbris

15 Rhagfyr 2018

Gweinyddwr y Cynllun yn prosesu didyniadau

29 Rhagfyr 2018

Yr Aelod yn cyflwyno ffurflen Dreth Hunanasesiad i Gyllid a Thollau EM yn dweud y bydd yn talu Lwfans Blynyddol drwy'r Cynllun yn Talu

31 Ionawr 2019

Gweinyddwr y Cynllun yn talu Treth Cynllun Gwirfoddol i Gyllid a Thollau EM

31 Ionawr 2019

² For illustrative purposes